



Gwasanaeth Cefnogi
Swyddog Diogelu Data
Data Protection Officer
Support Service

IGDC • DHCW

Atodlen Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data i Fferyllfeydd Cymunedol (CPs)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gwasanaethau Cymorth
Llywodraethu Gwybodaeth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog
Diogelu Data (DPO) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ar gyfer
Fferyllfeydd Cymunedol (CPs).

Mae'r Atodlen hon ar gyfer:
Llywodraethu Gwybodaeth IGDC (Perchennog Gwasanaeth)
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol IGDC
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Fferyllfeydd Cymunedol

Fersiwn: 2.0
Statws: Terfynol

Perchennog: Darren Lloyd
Awduron: Cora Suckley

Dyddiad: I ddod i rym o 1 Ebrill 2026
Dyddiad Adolygu Nesaf: 1 flwyddyn ar ôl cymeradwyo
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth IGDC
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen,
Caerdydd
CF11 9AD

Tabl Cynnwys

| | | |
|---|---|----|
| 1.0 | Hanes y Ddogfen | 3 |
| 1.1 | Hanes Adolygu | 3 |
| 1.2 | Adolygwyr | 3 |
| 1.3 | Awdurdodiad | 3 |
| 2.0 | Rhestr Termau | 5 |
| 3.0 | Cefndir | 6 |
| 3.1 | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data | 6 |
| 3.2 | Swyddog Diogelu Data | 7 |
| 3.3 | Rhinweddau a Thasgau'r DPO | 8 |
| 3.4 | Llywodraethu Gwybodaeth | 8 |
| 4.0 | Gwasanaeth | 9 |
| 4.1 | Pwrpas yr Atodlen Gwasanaeth hon | 9 |
| 4.2 | Model Gwasanaeth | 9 |
| 4.3 | Swyddogaethau Busnes Allweddol | 9 |
| 4.4 | Swyddogaethau Safonol y Gwasanaeth | 10 |
| 4.5 | Nodweddion Gwasanaeth Dewisol | 11 |
| 4.6 | Trosolwg o'r Model Cymorth | 12 |
| 5.0 | Model Gweithredu | 13 |
| 5.1 | Tymor y Cytundeb | 13 |
| 5.2 | Tanysgrifio i'r Gwasanaeth | 13 |
| 5.3 | Argaeledd Gwasanaethau | 13 |
| 5.4 | Tâl Gwasanaeth | 13 |
| 5.5 | Diwygiadau i Ffioedd | 14 |
| 5.6 | Gofynion Contract ar Fferyllfeydd Cymunedol | 14 |
| 5.7 | Cyfyngiadau Gwasanaeth | 14 |
| 5.8 | Strategaeth Ymadael | 14 |
| 5.9 | Dibyniaethau'r Gwasanaeth (Dadansoddiad o'r Effaith Busnes) | 15 |
| 5.10 | Categori Gwasanaeth | 15 |
| 6.0 | Llywodraethu Gwasanaeth | 15 |
| 6.1 | Bwrdd Rheoli Gwasanaethau | 15 |
| 6.2 | Rheoli Newid | 15 |
| 6.3 | Rhwymedigaethau | 16 |
| 6.4 | Datganiadau o Fuddiant DPO | 16 |
| 6.5 | Cyfrinachedd a Defnyddio Gwybodaeth | 16 |
| 6.6 | Cwynion | 16 |
| 6.7 | Adolygu'r Atodlen Gwasanaeth | 16 |
| Atodiad A: (Swyddogaethau wedi'u mapio yn erbyn y model cymorth yn Adran 4.7) | | 17 |



| | |
|---|----|
| Atodiad B: Trefniadau Gwasanaeth Cymorth IGDC | 23 |
| Atodiad C: | 25 |
| Atodiad D: | 26 |



1.0 Hanes y Ddogfen

1.1 Hanes Adolygu

| Dyddiad | Fersiwn | Awdur | Crynodeb o'r Adolygiad |
|------------|---------|-------------------|--|
| 20/03/2024 | d0.1 | Cora Suckley | Drafft Cychwynnol: |
| 26/03/2024 | F1.0 | Cora Suckley | Terfynol |
| 22/01/2025 | D1.1 | Cora Suckley | Adolygiad Blynyddol |
| 12/11/2025 | D1.2 | Francesca Harries | Adolygiad Blynyddol – 2026 – drafft i'w gymeradwyo |
| 27/02/2026 | F2 | Francesca Harries | Adolygiad Blynyddol – 2026 – Terfynol |


1.2 Adolygwyr

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen:

| Dyddiad | Fersiwn | Enw | Swydd |
|------------|---------|--------------|---|
| 25/03/2024 | D0.1 | Darren Lloyd | Cyfarwyddwr Cyswllt, Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, IGDC |
| 19/11/2025 | D1.2 | DPOSS SMB | Bwrdd Rheoli DPOSS |

1.3 Awdurdodiad

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

| | |
|---------------------------|---|
| Enw'r Cymeradwywr: | Darren Lloyd |
| Rôl: | Cyfarwyddwr Cyswllt, Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion |
| Llofnod: |  Darren Lloyd Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion |

| | |
|---------------------------|---|
| Enw'r Cymeradwywr: | DPOSS SMB |
| Rôl: | Gwasanaeth Cymorth DPO, Bwrdd Rheoli Gwasanaeth |
| Llofnod: | Aelodaeth o'r Bwrdd â Chworwm yn unol ag Adran 6.1. |





2.0 Rhestr Termiau

| Term/Acronym | Ystyr |
|--------------------------|---|
| Rheolydd | Rheolydd Data – unigolyn, cwmni, neu gorff arall sy'n pennu diben a dull prosesu data personol (gellir pennu hyn ar ei ben ei hun, neu ar y cyd ag unigolyn/cwmni/corff arall) |
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| DPA | Deddf Diogelu Data 2018 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted |
| DPIA | Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data – asesiad sy'n ymwneud â phreifatrwydd. Ei amcan yw nodi a dadansoddi sut y gallai rhai gweithredoedd neu weithgareddau effeithio ar breifatrwydd data |
| DPO | Swyddog Diogelu Data – sy'n gyfrifol am oruchwylio'r strategaeth diogelu data a'i gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion GDPR y DU |
| GDPR y DU | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data - atodlen Keeling (uk-gdpr.org) |
| CPs | Fferyllfeydd Cymunedol |
| CPW | Fferylliaeth Gymunedol Cymru |
| ICO | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/ |
| IG | Llywodraethu Gwybodaeth – y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli defnyddio gwybodaeth bersonol |
| NIIAS | Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol - yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar fynediad amhriodol posibl i gofnodion cleifion, a throsglwyddo'r hysbysiadau hyn i unigolyn dynodedig i'w dilyn i fyny. |
| PCGC | Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru |
| PCS | Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, IGDC |
| PCSD | Desg Wasanaeth Gofal Sylfaenol, IGDC |
| Data/gwybodaeth bersonol | Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn, gan gynnwys ei ddelwedd neu lais, sy'n ei alluogi i gael ei adnabod yn unigryw o'r wybodaeth honno ar ei phen ei hun neu o'r wybodaeth honno a/neu wybodaeth arall sydd ar gael i'r sefydliad hwnnw. |
| Prosesydd | Prosesydd Data - unrhyw unigolyn; heblaw cyflogai, sy'n prosesu data ar ran rheolydd data. Mae ganddynt atebolrwydd cyfreithiol os ydynt yn gyfrifol am dor diogelwch data. Mae GDPR y DU yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y Prosesydd |
| Gwasanaeth | Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data |



| | |
|-----------------------------------|---|
| SMB | Bwrdd Rheoli Gwasanaeth – yn gyfrifol am benderfyniadau strategol a gweithrediadau'r gwasanaeth |
| Data/gwybodaeth categori arbennig | Data sy'n cynnwys tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn naturiol. Cyfeiriwyd at y data hyn fel 'gwybodaeth sensitif' yn flaenorol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ond gyda'r rhai a amlygwyd mewn print trwm wedi'u hychwanegu. |
| WASPI | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru Hafan WASPI - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru |

3.0 Cefndir

3.1 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Mae Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) yn ffurfio cyfundrefn diogelu data'r DU.

Mae GDPR y DU yn berthnasol i 'reolwyr' a 'phroseswyr' gwybodaeth bersonol a chategoriâu arbennig (sensitif) sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy.

Mae GDPR y DU yn nodi saith egwyddor allweddol a ddylai fod wrth wraidd dull y sefydliad o brosesu gwybodaeth bersonol. Mae'r egwyddor atebolrwydd yn allweddol i ddangos cydymffurfiaeth â'r rheoliad.

Mae dwy elfen allweddol i'r egwyddor atebolrwydd; yn gyntaf, mae'n ei gwneud yn glir mai'r sefydliad sy'n gyfrifol am gydymffurfio â GDPR y DU. Mae hyn yn golygu bod angen i'r sefydliad fod yn rhagweithiol ac yn drefnus o ran ei ddull o ddiogelu data. Yn ail, rhaid i sefydliadau allu dangos eu bod yn cydymffurfio. Rhaid iddynt felly allu dangos tystiolaeth o'r camau y maent yn eu cymryd i gyflawni eu rhwymedigaethau ac amddiffyn hawliau pobl.

Mae nifer o fesurau y gall sefydliadau eu cymryd, ac y mae'n rhaid iddynt eu cymryd mewn rhai achosion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mabwysiadu a gweithredu polisiau diogelu data – [Erthygl 24\(2\) a Datganiad 78](#);
- cymryd agwedd 'diogelu data trwy ddylunio' – [Erthygl 25 a Datganiad 78](#);
- rhoi contractau ysgrifenedig ar waith gyda sefydliadau sy'n prosesu data personol ar eu rhan – [Erthygl 28 a Datganiad 81](#);
- cadw cofnodion o'u gweithgareddau prosesu – [Erthyglau 7\(1\), 30 a 33\(5\) a Datganiadau 42 ac 82](#);
- gweithredu mesurau diogelwch priodol – [Erthyglau 5\(f\) a 32 a Datganiadau 39 ac 83](#);
- cofnodi a, lle bo angen, adrodd am achosion o dor diogelwch data personol – [Erthyglau 33-34 a Datganiadau 85-88](#);
- cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer defnyddio data personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i fuddiannau unigolion – [Erthyglau 35-36 a Datganiadau 84 a 89-95](#);
- **penodi swyddog diogelu data** – [Erthyglau 37-39 a Datganiad 97](#); a;
- chadw at godau ymddygiad perthnasol a chymryd rhan mewn cynlluniau ardystio – [Erthyglau 40-43 a Datganiadau 98-100](#).



3.2 Swyddog Diogelu Data

Mae GDPR y DU yn cyflwyno dyletswydd ar Fferyllfeydd Cymunedol, fel awdurdod cyhoeddus, i benodi Swyddog Diogelu Data (DPO), gweler [Erthygl 39](#).

Diben y Swyddog Diogelu Data yw darparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar risg i'r sefydliad i gefnogi ei benderfyniadau ynghylch priodoldeb prosesu data personol a chategorïau arbennig o fewn yr Egwyddorion a'r Hawliau Testun Data a nodir yn y Rheoliad.

Rôl y DPO yw 'hysbysu a chynghori' ac nid 'gwneud'. Mae'n gynghorydd dibynadwy y dylai'r Fferyllfa Gymunedol fynd ati i geisio cyngor ganddo. Gall y DPO helpu'r sefydliad i weithredu o fewn y gyfraith trwy gynghori a helpu i fonitro a dangos cydymffurfiaeth. Mae'r swyddog yn chwarae rhan allweddol yn strwythur llywodraethu diogelu data'r sefydliad ac yn helpu i wella a hwyluso 'atebolrwydd'. Rhaid i'r sefydliad benodi DPO y mae ei swydd-ddisgrifiad yn cydymffurfio â gofynion GDPR y DU ac yn benodol rhaid iddo sicrhau:

- bod y DPO yn adrodd yn uniongyrchol i lefel reoli uchaf y sefydliad – *nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu rheolwyr llinell ar y lefel hon, ond mynediad uniongyrchol a dirwysr at yr uwch dîm rheoli;*
- bod y DPO yn cael adnoddau digonol: adnoddau ariannol a dynol, ac yn cael ei gefnogi i gynnal ei arbenigedd;
- bod gan y DPO '*wybodaeth arbenigol o gyfraith ac arferion diogelu data*' profedig, y gallu i gyflawni'r tasgau a nodir yn GDPR y DU, a dealltwriaeth ddigonol o fusnes a phrosesu'r sefydliad;
- bod llywodraethu gwybodaeth a pholisïau cysylltiedig yn mynd i'r afael â'r canlynol:
 - Atebolrwydd sefydliadol;
 - trefniadau adrodd DPO;
 - cyfranogiad amserol y DPO ym mhob mater diogelu data;
 - sicrwydd cydymffurfio: preifatrwydd trwy ddylunio ac yn ddiodyn;
 - rhoi cyngor ynghylch ble mae angen asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data;
 - rôl y DPO mewn rheoli digwyddiadau;
- nid yw'r DPO yn cael unrhyw gyfarwyddyd ynghylch cyflawni ei dasgau, ac mae wedi'i ddiogelu rhag camau disgyblu, diswyddo neu gosbau eraill;
- pan fo'r DPO yn cyflawni rôl neu rolau eraill, nid yw ei gyfrifoldebau'n cael eu dylanwadu mewn unrhyw ffordd ac nid oes gwrthdaro buddiannau;
- cyhoeddir manylion cyswllt y DPO yng ngwybodaeth preifatrwydd y sefydliad ar gyfer testunau data ac maent yn cael eu pasio ymlaen i'r ICO.

Mae'n bwysig ystyried Canllawiau Gweithgor 29 sy'n datgan:

'ni all y DPO ddal swydd o fewn y sefydliad sy'n ei arwain i *bennu dibenion a dulliau prosesu data personol*. Oherwydd y strwythur Sefydliadol penodol ym mhob sefydliad, mae'n rhaid ystyried hyn fesul achos'

ac ymhellach:

'Yn gyffredinol, gall swyddi sy'n gwrthdaro gynnwys swyddi uwch reolwyr (fel prif weithredwr, prif swyddog gweithredu, prif swyddog cyllid, prif swyddog meddygol, pennaeth yr adran farchnata, pennaeth Adnoddau Dynol neu bennaeth adran TG) ond hefyd swyddi eraill sy'n is i lawr yn y strwythur Sefydliadol os yw swyddi neu rolau o'r fath yn arwain at *bennu dibenion a dulliau prosesu*'.



Gall sefydliadau lluosog sy'n 'awdurdodau cyhoeddus' rannu DPO gan ystyried strwythur a maint y sefydliad. Gall y DPO fod naill ai'n aelod o staff neu gall gyflawni'r tasgau ar sail contract gwasanaeth, ar yr amod nad oes gwrthdaro buddiannau. Mae tîm DPO gyda chyswllt enwebedig ar gyfer pob sefydliad yn ddull derbyniol.

3.3 Rhinweddau a Thasgau'r DPO

Bydd y DPO yn cael ei ddyndodi ar sail rhinweddau proffesiynol ac, yn arbennig:

- arbenigedd mewn deddfwriaeth ac arferion diogelu data a dealltwriaeth fanwl o GDPR y DU;
- dealltwriaeth ddigonol o'r gweithrediadau prosesu a gyflawnwyd, yn ogystal ag anghenion systemau gwybodaeth a diogelu data'r sefydliad;
- gallu amlwg i gyflawni ei dasgau.

Prif dasgau'r DPO mewn perthynas â GDPR y DU yw:

- darparu cyngor i'r sefydliad a'i weithwyr ar rwymedigaethau cydymffurfio;
- rhoi cyngor ynghylch pryd y mae angen asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data a monitro eu perfformiad;
- monitro cydymffurfiaeth â GDPR y DU a pholisïau Sefydliadol, gan gynnwys ymwybyddiaeth staff a darpariaethau ar gyfer hyfforddiant;
- cydweithredu â'r Comisiynydd Gwybodaeth a bod yn bwynt cyswllt cyntaf iddo;
- bod yn bwynt cyswllt cyntaf o fewn y sefydliad(au) ar gyfer pob mater yn ymwneud â diogelu data;
- bod ar gael i destunau data gysylltu ag ef yn uniongyrchol; yn amodol ar gyfyngiadau a nodir yn Adran 5.7. Bydd manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data yn cael eu cyhoeddi yn hysbysiad preifatrwydd y sefydliad;
- ystyried risg gwybodaeth wrth gyflawni'r uchod.

3.4 Llywodraethu Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth (IG) yw'r ffordd y mae sefydliad yn trin ei holl wybodaeth, yn enwedig yr wybodaeth bersonol a sensitif sy'n ymwneud â chleifion a gweithwyr. Mae'n cynnwys cyfres o strwythurau, polisïau, gweithdrefnau, prosesau a rheolaethau amlddisgyblaethol sy'n cael eu rhoi ar waith i reoli gwybodaeth. Mae hefyd yn cefnogi gofynion rheoleiddio, cyfreithiol, risg, amgylcheddol a gweithredol y sefydliad yn awr ac yn y dyfodol.

Mae cleifion yn ymddiried eu gwybodaeth bersonol i weithwyr meddygol proffesiynol a sefydliadau gofal iechyd, gan greu gofynion penodol ar gyfer cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch.



4.0 Gwasanaeth

4.1 Pwrpas yr Atodlen Gwasanaeth hon

Mae'r atodlen hon yn diffinio'r mecanweithiau i gefnogi Fferyllfeydd Cymunedol (CPs) ledled Cymru i gyflawni eu dyletswyddau fel Swyddog Diogelu Data a chyflawni eu cyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth a safonau cenedlaethol.

Mae'n sicrhau bod cyfrifoldeb clir o ran y ddarpariaeth gwasanaeth, sy'n diffinio'r prosesau gweithredol ac yn cefnogi defnydd wedi'i reoli. At ddiben y ddogfen hon, cyfeirir at y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data ar gyfer Fferyllfeydd Cymunedol fel "y Gwasanaeth".

I grynhoi, mae'r atodlen hon yn darparu'r canlynol:

- Diffiniad o'r gwasanaeth;
- Disgrifiad o'r model cymorth;
- Nodi grwpiau a rolau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cymorth;
- Nodi gofynion cyflenwi;
- Trosolwg o brosesau cymorth;
- Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau Tîm y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO.

Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn ymwneud â gosod safon uchel ar gyfer trin gwybodaeth. Y bwriad felly yw rhoi'r offer i fferyllfeydd cymunedol gyrraedd y safonau hynny ac yn y pen draw iddynt ddangos y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn gyson yn y ffordd y maent yn trin gwybodaeth bersonol a chorfforaethol.

4.2 Model Gwasanaeth

Nod y model Gwasanaeth yw sefydlu dull i gefnogi fferyllfeydd cymunedol a darparu lefel gyson o gyngor, hyfforddiant a chymorth i Fferyllfeydd sydd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth ledled Cymru mewn perthynas â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.

Ariennir y Gwasanaeth gan ffi ardoll (Gweler Adran 5.4) a delir gan bob Fferyllfa Gymunedol sydd wedi tanysgrifio. Mae'r tanysgrifiad yn darparu mynediad at gymorth DPO llawn a gwasanaeth cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell cynhwysfawr.

Mae'n ofynnol i Fferyllfeydd Cymunedol nad ydynt yn tanysgrifio i'r gwasanaeth gael eu cymorth eu hunain naill ai'n fewnol gan eu Swyddog Diogelu Data eu hunain neu drwy gyrchu gwasanaeth arall.

Mae cymorth cyfyngedig yn cael ei ddarparu i Fferyllfeydd Cymunedol o fewn Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru a chaiff ei gyfyngu i ganllawiau sylfaenol a chymorth hyfforddiant mewn perthynas ag ymarferoldeb plattform Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru a sut i'w ddefnyddio.

Amlinellir swyddogaethau pob gwasanaeth sydd ar gael yn Atodiad A.

4.3 Swyddogaethau Busnes Allweddol

Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys nifer o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fodel cymorth Cymru gyfan a fydd yn cwmpasu'r swyddogaethau canlynol:

- **Darparu** cyswllt penodol ar gyfer gofyn am gyngor cyson a di-oed ar ddeddfwriaeth diogelu data, safonau cenedlaethol a chanllawiau;
- **Sefydlu** rhaglen ar gyfer cydymffurfio â GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys



dadansoddiad o'r bylchau, adolygu'r sail gyfreithiol a gweithgareddau prosesu a sicrhau bod rheolaethau technegol a sefydliadol ar waith;

- **Mesur** cydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth yn erbyn Safonau Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol a deddfwriaeth amrywiol trwy Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru;
- **Datblygu** a chynnal adnoddau cronfa wybodaeth ar-lein cynhwysfawr;
- **Codi** ymwybyddiaeth gyda'r lefel uchaf o reolaeth o fewn pob fferyllfa gymunedol;
- **Addysg** ar arferion gorau cyfredol, safonau, a deddfwriaeth sy'n datblygu trwy ddatblygu adnoddau ar-lein amrywiol;
- **Adolygu** contractau a chytundebau trydydd parti i adlewyrchu rhwymedigaethau diogelu data a osodir ar broseswyr data;
- **Rhoi gwybod** am yr holl faterion Llywodraethu Gwybodaeth ac arferion da gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff llywodraethu eraill;
- **Integreiddio** gwasanaethau a Rhannu Gwybodaeth;
- **Cefnogi fforymau** ar gyfer rheoli newid, gwybodaeth a chanllawiau deddfwriaethol, diweddariadau a gwelliant.

4.4 Swyddogaethau Safonol y Gwasanaeth

Bydd y Gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o swyddogaethau. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:-

Cyfathrebiadau Ymroddedig – darparu gwybodaeth gyfoes a pherthnasol i'n tanysgrifwyr drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys tudalen we ddiogel i danysgrifwyr yn unig sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau, templedi, a chylchlythyr misol. Cyfeiriad e-bost gwasanaeth cymorth pwrpasol ar gyfer cyflwyno ymholiadau gydag amser ymateb di-ffael o 5 diwrnod gwaith.

Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru - yn galluogi fferyllfeydd cymunedol i fesur eu cydymffurfiaeth llywodraethu gwybodaeth yn flynyddol, yn erbyn deddfwriaeth a safonau cenedlaethol. Mae cwblhau'r Pecyn Cymorth yn ofyniad cytundebol ar gyfer pob Fferyllfa Gymunedol. Bydd pawb sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth yn cael adnoddau ac arweiniad pwrpasol a phriodol i helpu i ddarparu tystiolaeth o ofynion rheoleiddio a safonau cenedlaethol.

Bydd y Gwasanaeth yn hwyluso archwilio a dadansoddi'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer fferyllfeydd sydd wedi tanysgrifio pan ofynnir amdano, er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth mewnol.

Adnoddau Sylfaen Gwybodaeth – bydd adnoddau yn cael eu datblygu i'w mabwysiadu gan fferyllfeydd a bydd gwaith yn parhau i adolygu, datblygu a chynnal ystod bellach o ddogfennaeth addas ar ddeddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, i gefnogi cydymffurfiaeth â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol a'r mesurau a nodir yn y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth.

Bydd y rhain ar gael trwy wefan benodol y gwasanaeth a byddant yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, safonau cenedlaethol a chanllawiau arferion gorau, templedi polisïau, gweithdrefnau, canllawiau, hysbysiadau preifatrwydd ac ati Cymru Gyfan. Bydd cylchlythyr misol sefydledig y Gwasanaeth DPO yn hyrwyddo diweddariadau rheolaidd ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth.

Hyfforddiant a Dysgu - ar gael i holl staff fferyllfeydd cymunedol trwy adnoddau ar-lein ar y wefan bwrpasol y gwasanaeth, i'w cynorthwyo i ddeall eu cyfrifoldebau fel Rheolwyr Data. Bydd y



Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar feysydd penodol o Lywodraethu Gwybodaeth a chydymffurfio â diogelwch data, trwy arsylwi cyrhaeddiad allbwn o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ac o anghenion hyfforddi a nodwyd.

Bydd codi ymwybyddiaeth o'r maes gwaith hwn yn cael ei hybu gan y Gwasanaeth wrth ddatblygu a mabwysiadu adnoddau hyfforddi a fydd ar gael i holl staff y fferyllfa mewn fformatau amrywiol yn dibynnu ar ofynion hyfforddi ac argaeledd gwasanaeth.

Hysbysu a Chynghori - cymorth yn cael ei ddarparu i'r fferyllfeydd ar eu rhwymedigaethau diogelu data trwy gyfathrebu uniongyrchol a thrwy'r wefan. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, roi cyngor ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chwmpas, cyd-destun a dibenion gweithrediadau prosesu, a darparu canllawiau ar y broses DPIA ac adolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a gwblhawyd gan y fferyllfa, a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer testunau data. Gweler Adran 5.7 am gyfyngiadau, a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn enwedig ynghylch Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata Personol.

Bydd cyngor cyffredinol a cheisiadau ad-hoc am arweiniad a chymorth yn cael eu derbyn trwy system rheoli galwadau'r Gwasanaeth sef 'ActionPoint'.

Rhannu Gwybodaeth - bydd cyngor ar gael i fferyllfeydd cymunedol a byddant yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o ddogfennau templed arferion da a ddatblygwyd yn unol â Fframwaith WASPI. Bydd y rhain yn cefnogi ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth wrth rhannu fel endid unigol neu fel grŵp cydweithredol. Er enghraifft, darparu arweiniad ar ddatblygu DPIAs;

Mae **Adran 4.6** yn rhoi trosolwg o'r model cymorth, a atgyfnerthir yn fanylach yn Atodiad A.

4.5 Nodweddion Gwasanaeth Dewisol

Gall y gwasanaeth ddarparu gwaith llywodraethu gwybodaeth ychwanegol y tu allan i gwmpas yr atodlen gwasanaeth. Dylai sefydliadau sydd â diddordeb mewn derbyn gwasanaethau ychwanegol gysylltu â Rheolwr Gwasanaeth DPO i gytuno ar gwmpas y gwaith neu fentrau sydd eu hangen a chael dyfynbris. Gellir cwblhau gwaith ar gyfradd dydd ymgynghorol neu gontract tymor hwy. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i danysgrifwyr a'r rhai nad ydynt yn tanysgrifio.



4.6 Trosolwg o'r Model Cymorth

Hysbysu a Chynghori

- Hawliau Unigolion
- Archwiliadau Gwybodaeth, Mapio Llif Data a Rheoli Risg
- Hysbysu a Chynghori ar Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIA)
- Rhoi gwybod am dor diogelwch data
- Fforymau Cefnogi
- Desg Wasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth

Hyfforddiant i Staff Fferyllfeydd Cymunedol

- Codi Ymwybyddiaeth
- Llyfrau gwaith
- Gweithdai
- Sesiynau grŵp
- E-Ddysgu

Gwefan Gwasanaeth DPO

- Datblygu Cynnwys Gwe ar gyfer Tanysgrifwyr Penodol
- Sylfaen Wybodaeth Uwch
- Canllawiau ac Adnoddau
- Templedi a Dogfennaeth Cymru Gyfan
- Dolenni i Adnoddau Ychwanegol
- Cyfathrebu Rheolaidd ynghylch Llywodraethu Gwybodaeth

Rhannu Gwybodaeth

- Gofynion y Fframwaith Rhannu Gwybodaeth
- Adnoddau Rhannu Gwybodaeth

Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru

- Mesur Cydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwell cefnogaeth a chynghor



5.0 Model Gweithredu

5.1 Tymor y Cytundeb

Daeth y Gwasanaeth i rym ar 1 Ebrill 2024. Bydd yn parhau mewn grym hyd nes y bydd IGDC, y llofnodwr neu gynrychiolydd arall o'r Fferyllfa Gymunedol yn arfer eu hawl i adael y Gwasanaeth fel y'u diffinnir yn Adran 5.8 o'r atodlen hon.

5.2 Tanysgrifio i'r Gwasanaeth

Er mwyn bwrw ymlaen i danysgrifio i'r gwasanaeth, mae'n ofynnol i fferyllfeydd cymunedol gwblhau dau gytundeb:

- Cytundeb ar gyfer darparu Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO (Atodiad C)
- Awdurdodi Ardoll ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data, IGDC

Mae'r ddau gytundeb yn nodi'r manylion sydd eu hangen ac i ble i anfon yr awdurdodiad wedi'i gwblhau.

Mae Atodiad C yn cadarnhau y bydd y fferyllfa gymunedol yn tanysgrifio yn seiliedig ar gynnwys yr atodlen hon.

Mae Atodiad D yn cadarnhau bod y Fferyllfa Gymunedol yn awdurdodi Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) i gymryd taliad chwarterol sy'n gyfartal â'r gwerth rhagnodedig.

5.3 Argaeledd Gwasanaethau

Oriau cymorth y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO yw **09:00 – 17:00 Dydd Llun – Dydd Iau, 09:00 – 16:30 Dydd Gwener (ac eithrio Gwyliau Banc)**.

Bydd ymholiadau ynghylch Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata yn amodol ar ofynion Gorfodol yr ICO a GDPR y DU o 72 awr.

Y dull a ffafir o gysylltu â'r Gwasanaeth yw drwy'r system rheoli galwadau, 'ActionPoint' – DPOService@wales.nhs.uk.

Caiff galwadau eu hidlo a rhoddir blaenoriaeth addas iddynt ar gyfer ymateb. Yr amser safonol i ateb ymholiadau yw uchafswm o 5 diwrnod gwaith, er y byddwn yn ymdrechu i ymateb yn gynt.

Yn achos ymholiadau DPO brys, rhoddir ymateb ar y diwrnod gwaith nesaf fan hwyraf.

5.4 Tâl Gwasanaeth

Bydd y model costio yn ffi sefydlog, yn seiliedig ar nifer yr eitemau a brosesir bob chwarter gan y fferyllfa neu grŵp o fferyllfeydd fel a ganlyn:

| Eitemau fesul chwarter | Ffi ar gyfer y flwyddyn | Ffi fesul chwarter |
|------------------------------|-------------------------|--------------------|
| <18,000 o eitemau y chwarter | 828 | 207 |
| >18001 <29,000 | 1035 | 258.75 |
| >29,001 <39,000 | 1242 | 310.50 |
| >39,001 <200000 | 1449 | 362.25 |
| >200001 | Ffioedd penodol ar gais | |



Bydd yr haen dalu sy'n berthnasol yn cael ei chyfrifo trwy ddefnyddio data presgripsiwn wedi'i ddilysu a ddarparwyd gan PCGC ac yn seiliedig ar ddata'r chwarteri blaenorol. Er enghraifft bydd haen y ffi Ardoll ar gyfer Ch1 2024/25 yn seiliedig ar ddata presgripsiynau ar gyfer eitemau a broseswyd yn ystod Ch4 2023/24.

Disgwylir i daliadau gael eu casglu gan y Fferyllfa Gymunedol gan PCGC ar ddiwedd pob chwarter ac yna eu trosglwyddo'n uniongyrchol i IGDC. Bydd y gwasanaeth y codir tâl amdano yn cael ei adolygu ym mis Ebrill bob blwyddyn ac yn cynyddu yn unol â chynnydd ar sail codiadau chwyddiant cytundeb lefel gwasanaeth a bennwyd gan GIG Cymru.

Ni fydd IGDC yn ceisio gwneud unrhyw arian dros ben nac elw o'r gwasanaeth hwn. Mae'r model costio uchod yn ceisio rhagweld amrywiadau anochel mewn costau staff a chostau refeniw eraill. Os bydd sefyllfa'n codi pan fo darbodion maint yn awgrymu y gellir gwneud arbedion i'r gost ar gyfer y Fferyllfa Gymunedol, bydd IGDC yn hysbysu'r holl randdeiliaid dan sylw ac yn newid y cyfrifiad o fewn fframwaith yr ardoll.

5.5 Diwygiadau i Ffioedd

Os oes angen swyddogaethau a nodweddion gwasanaeth ychwanegol ar unrhyw adeg fel rhan o'r pecyn cyffredinol, sy'n effeithio ar gost y Gwasanaeth, yna efallai y bydd y tanysgrifiad blynyddol yn cynyddu. Bydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth y Swyddog Diogelu Data yn cytuno ar welliannau i lefel y ffi.

Bydd IGDC yn rhoi gwybod i randdeiliaid am gynnydd o'r fath ym mis Ebrill bob blwyddyn.

Gall fferyllfeydd cymunedol ofyn am wasanaethau ychwanegol fel yr amlinellir yn adran 4.6, a chodir tâl ychwanegol ar fferyllfeydd unigol.

5.6 Gofynion Contract ar Fferyllfeydd Cymunedol

Bydd yn ofynnol i bob fferyllfa gymunedol ddarparu manylion cyswllt enwebedig o fewn y Fferyllfa. Bydd y Gwasanaeth yn cadw cofrestr o gysylltiadau fel bod y Gwasanaeth yn gallu cynnal dull cydlynol at ymholiadau a chyfathrebu. Mae'n ofynnol i bob fferyllfa gymunedol hysbysu'r Gwasanaeth o newidiadau i'r cyswllt enwebedig.

5.7 Cyfyngiadau Gwasanaeth

Ni fwriedir i'r nodweddion gwasanaeth a ddisgrifir yn Atodiad A ddisodli neu ategu cyfrifoldebau busnes o ddydd i ddydd. Er enghraifft, ymateb yn uniongyrchol i geisiadau gan y cyhoedd yr ystyrir eu bod yn dod o dan 'hawliau unigolion' o fewn GDPR y DU.

Ni fydd y gwasanaeth yn disodli unrhyw swyddogaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda gwasanaethau eraill; oni bai y cytunir arno gan bob parti. Er enghraifft, drwy'r Byrddau Iechyd, PCGC neu Wasanaethau GIG cydnabyddedig eraill. Mae Atodiad A yn manylu ar yr eitemau sydd wedi'u heithrio o'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Nid yw'r Gwasanaeth yn bwriadu diffinio uchafswm terfyn amser mewn perthynas â chymorth a ddarperir i fferyllfeydd unigol sydd wedi tanysgrifio iddo. Os yw'n ymddangos bod lefel y gefnogaeth a ddarperir i fferyllfa gymunedol benodol yn cael effaith andwyol ar lefel y gefnogaeth y gall y Gwasanaeth ei darparu i fferyllfeydd cymunedol eraill, yna efallai y bydd angen i'r Gwasanaeth Cymorth osod cyfyngiadau ar ei ddarpariaeth gwasanaeth.

5.8 Strategaeth Ymadael

Bydd yn ofynnol i fferyllfeydd cymunedol roi o leiaf un flwyddyn galendr o rybudd i IGDC os ydynt yn dymuno gadael y Gwasanaeth diffiniedig.

Gall IGDC ddiddymu'r Gwasanaeth os bydd colli fferyllfeydd cymunedol yn ddigon sylweddol i effeithio ar hyfywedd ariannol y gwasanaeth. Pe bai'r sefyllfa hon yn codi, bydd IGDC yn rhoi rhybudd o flwyddyn i'r fferyllfa gymunedol bod y Gwasanaeth yn cau.

Bydd gwybodaeth a gedwir gan IGDC ar ran fferyllfa gymunedol ar ôl terfynu'r cytundeb, yn cael ei



dychwelyd i'r fferyllfa neu'n cael ei dinistrio o fewn meini prawf cadw a dinistrio diffiniedig.

5.9 Dibyniaethau'r Gwasanaeth (Dadansoddiad o'r Effaith Busnes)

Mae Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO yn dibynnu ar y gwasanaethau IGDC canlynol:

- Cyllid (trwy IGDC a PCGC)
- Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
- Tîm Datblygu PC a Phecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwasanaethau Gwybodaeth
- Integreiddio a Data Cyfeirio
- Rheoli Gwasanaeth TG
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Datblygu Meddalwedd
- Y Gweithlu ac Adnoddau Dynol

Gweler Atodiad B – Tabl Un am fanylion pellach ar gyfrifoldebau cefnogi'r gwasanaethau hyn.

5.10 Categori Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan DPO, fel y disgrifir yn yr atodlen hon, wedi'i gategoreiddio fel safonol.

Wrth ddarparu'r Gwasanaeth, mae IGDC a'i swyddogion yn gweithredu fel contractwr annibynnol ac nid fel gweithiwr. Nid yw'r cytundeb hwn yn creu partneriaeth neu fenter ar y cyd ac mae'n contract am wasanaethau yn unig.

6.0 Llywodraethu Gwasanaeth

6.1 Bwrdd Rheoli Gwasanaethau

Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am asesu perfformiad y Gwasanaeth a goruchwylio gwelliannau a newidiadau a awgrymir i'r gwasanaeth. Bydd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd canlynol:

- GPC Cymru (2)
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru (1)
- Optometreg Cymru (1)
- Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol (2)
- Byrddau Iechyd, Arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth (2)
- Arweinwyr Rhwydwaith Clwstrwr Meddygon Teulu (yn ôl yr angen)
- Cynrychiolwyr GMP unigol (yn ôl yr angen)
- Cynrychiolwyr Fferylliaeth Gymunedol unigol (yn ôl yr angen)
- Cynrychiolwyr Optometreg unigol (yn ôl yr angen)

6.2 Rheoli Newid

Bydd cyfrifoldebau'n cael eu cynnal mewn cyfarfodydd sefydledig i ystyried newidiadau i brosesau busnes:



- Bwrdd Rheoli Gwasanaeth (SMB) Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru;
- Bwrdd Rheoli Gwasanaeth (SMB) NIAS;
- Cadeirydd GPC Cymru a Phwyllgorau Lleol.
- Cadeirydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Phwyllgorau Lleol.
- Bwrdd Optometreg Cymru a Phwyllgorau Optegol Rhanbarthol.

6.3 Rhwymedigaethau

Bydd y fferyllfa gymunedol yn parhau'n gyfrifol, yn ei rôl fel Rheolydd, am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac yn unol â hynny bydd yn dangos cydymffurfiaeth o'r fath, ni waeth faint o ymreolaeth a roddir i'r DPO.

Pe bai'r fferyllfa gymunedol yn penderfynu peidio â dilyn y cyngor a roddwyd gan y DPO, dylai ddogfennu ei resymau i helpu i ddangos ei benderfyniad a'i atebolrwydd.

6.4 Datganiadau o Fuddiant DPO

Pan fo IGDC yn rhoi cyngor i randdeiliaid lluosog, bydd buddiannau ar ran y Rhanddeiliaid/Rheolwyr hynny yn cael eu datgan cyn gynted â phosibl.

6.5 Cyfrinachedd a Defnyddio Gwybodaeth

Er mwyn darparu buddion llawn y Gwasanaeth, efallai y bydd adegau pan fydd angen i'r fferyllfa gymunedol ddarparu gwybodaeth i'r Gwasanaeth i ddatrys ymholiadau penodol, neu gynrychioli'r fferyllfa o fewn rôl ffurfiol y DPO. Er enghraifft, efallai y bydd angen gwybodaeth bersonol cleifion, fferyllfeydd cymunedol a gweithwyr ac efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth o bryd i'w gilydd fel rhan o'r swyddogaethau.

Bydd lleihau data yn cael ei fabwysiadu er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth yn cofnodi ac yn prosesu manylion penodol er mwyn cwblhau tasgau sydd wedi'u neilltuo.

Fel y diffinnir yn GDPR y DU, bydd IGDC yn gweithredu fel Prosesydd ar ran fferyllfeydd cymunedol yn rhinwedd eu swydd fel Rheolwyr; neu Reolwyr Data ar y Cyd.

Bydd y Gwasanaeth yn trin gwybodaeth a geir yn gwbl gyfrinachol a bydd yn ei defnyddio yn unol â'r atodlen hon, deddfwriaeth diogelu data a chaniatâd y fferyllfa gymunedol yn unig.

6.6 Cwynion

Os oes gan fferyllfa gymunedol bryderon neu gwynion mewn perthynas â darpariaeth y Gwasanaeth a ddiffinnir yn yr Atodlen Gwasanaeth hon, yna dylid cyfeirio'r mater hwn yn y lle cyntaf at Reolwr Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO.

Os na fydd cwynion wedi'u datrys a'u derbyn o fewn un mis calendr, yn dilyn cyfathrebu'r materion diffiniedig, yna gall y fferyllfa gymunedol uwchgyfeirio'r mater i'r Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion yn IGDC.

Os bydd y mater yn parhau heb ei ddatrys a bod y fferyllfa gymunedol yn dymuno terfynu trefniant y Gwasanaeth, bydd yn ofynnol iddo roi gwybod i Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai na fydd yn ofynnol i'r fferyllfa gymunedol gydymffurfio â'r cyfnod rhybudd fel y'i diffinnir yn Adran 5.8 o'r atodlen hon.

6.7 Adolygu'r Atodlen Gwasanaeth

Bydd yr Atodlen Gwasanaeth hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, os bydd newidiadau i ddeddfwriaeth neu safonau cenedlaethol yn codi, efallai y bydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO yn ystyried diweddarau'r atodlen yn gynharach.



Atodiad A: (Swyddogaethau wedi'u mapio yn erbyn y model cymorth yn Adran 4.7)

| <p>Swyddogaethau Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan DPO</p> <p>Swyddogaethau penodol sydd ar gael i danysgrifwyr i'r gwasanaeth</p> | <p>Swyddogaethau Safonol Cymru Gyfan</p> <p>Swyddogaethau cymorth presennol IGDC sydd ar gael am ddim</p> | <p>Swyddogaethau nad ydynt wedi'u cynnwys</p> <p>Yn diffinio cyfyngiadau'r Gwasanaeth</p> |
|---|---|--|
| <p>Hysbysu a Chyngori - Hawliau Unigolyn</p> | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyngor ac arweiniad i arweinwyr fferyllfeydd enwebedig ar ddelio â cheisiadau o dan 'Hawliau Unigolyn' fel y'u diffinnir o dan GDPR y DU. • Cysylltu ag Unigolion ynghylch pryderon neu gwynion fel y bo'n briodol • Cefnogi fferyllfeydd ag ymholiadau a chyfathrebu cymhleth. | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Hawliau Unigolion' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth. | <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn a Rheoli Ceisiadau Hawliau Unigol, gan gynnwys Ceisiadau Mynediad at Wybodaeth. |
| <p>Hysbysu a Chyngori - Archwiliadau Gwybodaeth a Mapio</p> | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad a chyngor lefel uchel o restrau cyfunol o lifau data i mewn ac allan o'r fferyllfa. Cyfeirio at dempledi ac arferion da • Templedi arweiniad cymorth gwell i gefnogi casglu cofrestr asedau cadarn. | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'ROPA' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Creu a rheoli cofrestr asedau ar gyfer y fferyllfa |
| <p>Hysbysu a Chyngori - Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIAs)</p> | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyngor ar bryd y mae angen DPIA ar gyfer prosiectau a mentrau • Rhoi cymorth a chyngor wrth gynnal DPIA • Adolygu DPIAs drafft i sicrhau unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig a monitro perfformiad • DPO i 'gymeradwyo' gweithgarwch a chynnwys | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Risgiau a DPIAs' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi DPIA |



| | | |
|---|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn absenoldeb unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig | | |
|---|--|--|

Hysbysu a Chynghori - Risg

| | | |
|--|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi cyngor ac arweiniad ar greu a defnyddio Cofrestr Risg Llywodraethu Gwybodaeth (IG) Fferyllfa • Dadansoddi Cofrestr Risg Lliniaru Fferyllfeydd ac argymhellion DPO ar gyfer gwella a lliniaru risgiau a nodwyd • Rhoi cyngor ac arweiniad ar gontractau a chytundebau trydydd parti o safbwynt Llywodraethu Gwybodaeth, i adlewyrchu'r rhwymedigaeth a roddir ar broseswyr data drwy ddeddfwriaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Risgiau a DPIAs' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Creu Cofrestr Risg Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Fferyllfeydd |
|--|--|--|

Hysbysu a Chynghori - Hysbysu am Dor Diogelwch Data Personol

| | | |
|--|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Gweithdrefn adrodd am ddigwyddiadau yn y fferyllfa • Cronfa ddata adrodd ganolog • Cydweithredu â Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio â diogelu data ac mewn perthynas â hysbysiadau am dor diogelwch data personol • Rhoi cyngor ar drothwyon adrodd ar ddigwyddiadau unigol | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Monitro ac Ymateb i Doriadau' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Prosesau ymchwilio cychwynnol |
|--|---|---|

Hysbysu a Chynghori - Fforymau Cefnogi

| | | |
|---|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad ar-lein i ganllawiau ar gyfer tanysgrifwyr i'r gwasanaeth DPO yn unig • Sesiynau hyfforddi dan arweiniad arbenigwyr ar gyfer tanysgrifwyr DPO yn unig | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol | <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad at wasanaethau cyfreithiol allanol |
|---|--|---|



| | | |
|--|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Pecynnau hyfforddi a fideos ar-lein ar gyfer tanysgrifwyr DPO yn unig | | |
| Hysbysu a Chyngori - Desg Wasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad i bwyntiau cyswllt penodol trwy ActionPoint • Argaeledd rhwng 9am a 5pm (Llun - Iau) a 9am a 4.30pm (Gwener) gydag uchafswm amser ymateb o 5 diwrnod i ymholiadau • Argaeledd rhwng 9am a 5pm (Llun - Iau) a 9am a 4.30pm (Gwener) gydag uchafswm amser ymateb o 24 awr yn achos hysbysiadau brys am doriadau | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor y tu allan i oriau ac ar y penwythnos |
| Hyfforddiant i Staff Fferyllfeydd Cymunedol - Codi Ymwybyddiaeth | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu deunydd codi ymwybyddiaeth ar gyfer Timau Rheoli Fferyllfa • Fideos animeiddiedig ar amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth • Cylchlythyr misol rheolaidd | <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Darparu hyfforddiant penodol i Fferyllfeydd yn unigol |
| Hyfforddiant i Staff Fferyllfeydd Cymunedol - Gweithdai | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gweithdai rhithwir byw yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad ymarferol am amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â materion Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol |
| Hyfforddiant i Staff Fferyllfeydd Cymunedol - Sesiynau Grŵp Rhithwir | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant rhithwir ar gyfer Tanysgrifwyr i'r Gwasanaeth DPO yn unig, gyda chynnwys pwnc yn seiliedig ar Adborth gan fferyllfeydd cymunedol a meysydd ffocws a nodwyd trwy ddadansoddi'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol |
| Hyfforddiant i Staff Fferyllfeydd Cymunedol - Offeryn E-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth | | |



| | | |
|--|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau e-ddysgu, yn benodol ar gyfer tanysgrifwyr i'r gwasanaeth DPO yn unig | <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad i'r modiwl e-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth, Seiberddiogelwch a Rheoli Cofnodion | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol |
| Gwefan Gwasanaeth DPO | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Argaeledd adnoddau ar-lein ychwanegol pwnc-benodol gwell i Danysgrifwyr i'r gwasanaeth DPO yn unig | <ul style="list-style-type: none"> • Argaeledd adnoddau ar-lein i bawb trwy'r wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol |
| Gwefan Llywodraethu Gwybodaeth - Adnoddau Cyfarwyddyd | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth o offer canllaw ar gael trwy'r wefan Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Tanysgrifwyr i'r gwasanaeth DPO yn unig | <ul style="list-style-type: none"> • Mae canllawiau i gefnogi cwblhau'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar gael ar wefan Llywodraethu Gwybodaeth. | <ul style="list-style-type: none"> • Dehongliad penodol o ganllawiau presennol o ffynonellau allanol |
| Gwefan Llywodraethu Gwybodaeth - Dogfennau Templed Cymru Gyfan | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Ystod o ddogfennau templed gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau, sydd ar gael i Danysgrifwyr i'r gwasanaeth DPO eu lleoleiddio a'u mabwysiadu. | <ul style="list-style-type: none"> • Templedi a grëwyd fel rhan o adnodd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). • Polisiau Cymru Gyfan ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | <ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn Berthnasol |
| Rhybuddion Llywodraethu Gwybodaeth Electronig ar y wefan Llywodraethu Gwybodaeth | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Newyddlen Gwasanaeth DPO Misol | <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Rhybuddion Llywodraethu Gwybodaeth Electronig - eisoes wedi'i sefydlu a'i ddosbarthu'n eang | <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth hysbysiadau awtomataidd |
| Rhannu Gwybodaeth - Adnoddau Rhannu Gwybodaeth | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu Cytundebau Rhannu Gwybodaeth (ISA), Cytundebau Rhannu Data (DSA), Cytundebau Rheolydd ar y Cyd (JCA) a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) i sicrhau bod y cynnwys Llywodraethu Gwybodaeth perthnasol yn gywir ac yn gyson | <ul style="list-style-type: none"> • Fel y'i cynhwyswyd ar wefan gyfredol WASPI • Cyngor sylfaenol ynghylch 'Contractau a Rhannu Gwybodaeth' a ddarperir drwy'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a thrwy Wefan Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> • Dehongli darpariaeth gytundebol ffurfiol fel y dylid ei gefnogi gan swyddogaethau cyfreithiwr • Datblygu dogfennaeth ar gyfer prosiectau clwstwr a |



| | | |
|--|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> Gweler yr adran Hysbysu a Chynghori – Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data Rhoi cyngor ar geisiadau am wybodaeth leol gan gasgliadau data Byrddau Iechyd a Chymru Gyfan | <ul style="list-style-type: none"> | <ul style="list-style-type: none"> rhaglenni clwstr uwch Datrys rhwystrau rhannu gwybodaeth dechnegol gyda sefydliadau GIG Lloegr |
|--|--|---|

Rhannu Gwybodaeth - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

| | | |
|--|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> Ddim yn Berthnasol | <ul style="list-style-type: none"> Rhoi cyngor ar 'ymrwymo' i Gytundeb WASPI Rhoi cyngor ar ddefnyddio a sicrwydd Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP) o dan Fframwaith WASPI Mynediad at grwpiau sicrwydd rhanbarthol Postio Protocolau Rhannu Gwybodaeth ar wefan WASPI Mynediad i adnoddau ar wefan WASPI | <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau Protocolau Rhannu Gwybodaeth ac ati DPO yn cymryd cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r fframwaith |
|--|---|---|

Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer Fferyllfeydd Cymunedol - Asesu a Chynnal Cynnwys

| | | |
|--|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r gyfres o gwestiynau Pecyn Cymorth Llywodraethu a mapio adnoddau DPO yn flynyddol. Dadansoddi'r cwestiynau sy'n rhan o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> Cynnal y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth; asesiadau a chynnwys yn cael eu diweddarau yn unol â gofynion cyfreithiol neu safonau cenedlaethol newydd | <ul style="list-style-type: none"> Llunio'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth |
|--|---|--|

Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer Fferyllfeydd Cymunedol - Adnoddau Ategol

| | | |
|--|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> Cymorth gwell gyda dogfennaeth gan gynnwys templedi, canllawiau ac adnoddau hyfforddi sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Pecyn Cymorth Gweithdai fesul adran | <ul style="list-style-type: none"> Canllawiau/hyfforddiant ar ymarferoldeb y Pecyn Cymorth a defnyddio'r platfform Canllawiau sylfaenol ar ofynion y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> Rhoi adnoddau ar waith yn y Fferyllfa |
|--|--|---|

Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer Fferyllfeydd Cymunedol - Mesur Cydymffurfiaeth â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth

| | | |
|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddi/archwilio cyflwyno'r Pecyn Cymorth | <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiad lefel uchel fesul Clwstr ar gyfer adrodd | <ul style="list-style-type: none"> Llunio'r Pecyn Cymorth |
|---|---|--|



| | | |
|---|---------------------------------|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth a nodi meysydd y mae angen eu datblygu i'w cynnwys yng nghynllun gwella'r Fferyllfa | i Fyrddau lechyd yn ôl yr angen | Llywodraethu Gwybodaeth a chynlluniau gwella cysylltiedig |
|---|---------------------------------|---|



Atodiad B: Trefniadau Gwasanaeth Cymorth IGDC

Tabl 1

Bydd nifer o dimau cymorth IGDC, y manylir arnynt yn y tabl isod, yn ymwneud â darparu cymorth o'r dechrau i'r diwedd i'r Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO.

| Tîm | Yn gyfrifol am |
|-------------------------------------|---|
| Tîm Llywodraethu Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none">• Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan y DPO• Datblygu a chynnal Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru• NIIAS• WASPI |
| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | Ymgysylltu â Gwasanaeth DPO Llywodraethu Gwybodaeth a chydlynu â chontractwyr gofal sylfaenol |
| Rheoli Gwasanaeth TG | ActionPoint (System rheoli galwadau) |
| Tîm Cyfrifyddu Ariannol | Swyddogaethau ariannol |
| Y Gweithlu | Darparu cyngor a chymorth Adnoddau Dynol proffesiynol |
| Datblygu Meddalwedd | Arwain ar ddatblygu platfform Caforb y mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn rhan ohono Cefnogaeth i blatfform Mura sy'n lletya gwefan Llywodraethu Gwybodaeth a gwefan y Gwasanaeth Cymorth DPO. |



Tabl 2

Mae angen nifer o rolau unigol, y manylir arnynt yn y tabl isod, i danategu cymorth y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO

| Rôl | Yn gyfrifol am | Dan ofal |
|--|--|----------|
| Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion | Arweinydd DPO ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO. Yn gyfrifol am reoli'r cynnwys a'r ymrwymiad a nodir yn yr Atodlen Gwasanaeth hon, gan gynnwys monitro ac adrodd ar berfformiad gwasanaethau a datblygu prosesau rheoli gwasanaethau. Yn ogystal, darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth a chefnogi'r Rheolwr Gwasanaeth DPO yn ôl yr angen. | IGDC |
| Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data | Rheoli tîm Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO, gyda chyfrifoldeb rheolaethol a gweithredol am gynnal a datblygu'r gofynion Llywodraethu Gwybodaeth DPO a nodwyd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol fel y nodir yn yr Atodlen Gwasanaeth. | IGDC |
| Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Cymorth Swyddog Diogelu Data | Cefnogi Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO i ddarparu'r gwasanaeth yn weithredol | IGDC |
| Rheolwr Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth | Darparu dogfennaeth strwythuredig, cyngor ac arweiniad i fferyllfeydd cymunedol ar y meysydd a ddisgrifir uchod | IGDC |
| Swyddogion Gwasanaethau Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO | Bod yn bwynt cyswllt allweddol i frysbenau swyddogaethau Llywodraethu Gwybodaeth DPO ar draws y Gwasanaeth Cymorth presennol a newydd | IGDC |
| Gweinyddwr y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO | Yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth DPO | IGDC |
| Rheolwr Cod WASPI | Rheoli Gwasanaeth WASPI | IGDC |



Atodiad C:

Cytundeb ar gyfer darparu Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell

gan Swyddog Diogelu Data

Rhwng: **Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)**
Tŷ Glan-yr-Afon, 21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen,
Caerdydd CF11 9AD

Ac: [rhowch enw masnachu ynghyd â chyfeiriad(au) a rhif(au)
cyfrif Fferyllfeydd Cymunedol]

Llofnodwyd gan: *(Dylai Arweinydd y Fferyllfa lofnodi'r cytundeb ffurfiol)*

Enw a Swydd:

Rhif Ffôn:

E-bost:

Dyddiad:

**Enw a swydd y
Cyswllt
Enwebedig:**

Rhif Ffôn:

E-bost:

(Bydd yr wybodaeth uchod yn cael ei defnyddio fel pwynt cyswllt diofyn ar gyfer y fferyllfa ac i ddosbarthu deunyddiau, cyfathrebiadau (a all fod o natur gyfrinachol weithiau) a rhybuddion y gall fod eu hangen fel rhan o'r gwasanaeth a ddarperir)

Drwy lofnodi'r cytundeb hwn, rydym yn awdurdodi Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i ddarparu Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data i'r Fferyllfa Gymunedol a enwir uchod. Bydd y ddarpariaeth gwasanaeth hon, fel y nodir yn yr Atodlen Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO, yn dechrau ar ôl derbyn y cytundeb hwn wedi'i lofnodi os yw'n hwyrach.

Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau i DPOService@wales.nhs.uk neu postiwch hi i Wasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth y DPO, 6ed Llawr, Tŷ Glan-yr-Afon, 21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Caerdydd, CF11 9AD.



Atodiad D:

AWDURDODI ARDOLL AR GYFER GWASANAETH CYMORTH LLYWODRAETHU GWYBODAETH GAN DPO, IGDC

I: Gyfarwyddwr Cyllid, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Yr wyf i, sydd wedi llofnodi isod: [Rhowch enw'r awdurdod addas]

o: [rhowch enw masnachu ynghyd â chyfeiriad(au) a rhif(au) cyfrif Fferyllfeydd Cymunedol]

sy'n gynrychiolydd a benodwyd yn briodol o'r fferyllfa ar ôl ymrwymo i gytundeb ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), i ddarparu Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth (IG) gan Swyddog Diogelu Data (DPO), fel y'i diffinnir yn Fersiwn 2.0 o'r Atodlen Gwasanaeth amgaaedig, yn awdurdodi ac yn gofyn i Wasanaethau Gofal Sylfaenol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), (oni bai, a hyd nes, y bydd yr Awdurdodiad a'r Cais yn cael eu diddymu) ddidynnu swm o'r fath o'r symiau sy'n ddyledus i mi bob chwarter mewn perthynas â'r eitemau sy'n cael eu gweinyddu bob chwarter. Bydd yr haen dalu sy'n berthnasol yn cael ei chyfrifo trwy ddefnyddio data presgripsiwn wedi'i ddilysu a ddarparwyd gan PCGC ac yn seiliedig ar ddata'r chwarteri blaenorol. Er enghraifft bydd haen y ffi Ardoll ar gyfer Ch1 2026/27 yn seiliedig ar ddata presgripsiynau ar gyfer eitemau a broseswyd yn ystod Ch4 2025/26.

Mae'r haenau talu fel a ganlyn:

| Eitemau fesul chwarter | Ffi ar gyfer y flwyddyn | Ffi fesul chwarter |
|------------------------------|-------------------------|--------------------|
| <18,000 o eitemau y chwarter | 828 | 207 |
| >18001 <29,000 | 1035 | 258.75 |
| >29,001 <39,000 | 1242 | 310.50 |
| >39,001 <200000 | 1449 | 362.25 |
| >200001 | Ffioedd penodol ar gais | |

a gofynnaf drwy hyn ac awdurdodaf PCGC i dalu'r swm a nodir i IGDC.

Llofnod:

Dyddiad:

Dychwelwch y mandad wedi'i gwblhau i DPOService@wales.nhs.uk.

Neu drwy'r post i'r **Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO, 6^{ed}Llawr, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Tŷ Glan-yr-Afon, 21 Heol Ddwyrain y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9AD**

AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG:



Gwasanaeth Cefnogi
Swyddog Diogelu Data
Data Protection Officer
Support Service
IGDC-DHCW

| | | |
|--|---|--|
| Wedi'i anfon at Gydlynnydd y Gronfa Ddata ar: | Wedi'i gofnodi gan Gydlynnydd y Gronfa Ddata ar: | Wedi'i wirio gan y Swyddog Cyfrifol ar: |
|--|---|--|

